| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mai 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Gary Williams a Steve Price** |
| **Teitl:** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol ac Aelodaeth Pwyllgorau** |

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn hwyluso adolygiad statudol cydbwysedd gwleidyddol ac yn ystyried gofynion aelodaeth pwyllgorau.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol i ddyrannu seddau ar amrywiol bwyllgorau yn unol â gofynion statudol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n ystyried y tabl dyrannu a ddefnyddir i gael dyraniad seddau pwyllgor gyda chydbwysedd gwleidyddol (atodiad 1).

3.2 Bod yr Aelodau'n ystyried a chymeradwyo dosbarthiad seddau fel y nodir yn atodiad 2 a bod y grwpiau gwleidyddol yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd o aelodau a enwyd i'r seddau a ddyrannwyd cyn gynted ag y bo modd (ac eithrio apwyntiadau Cabinet – gweler paragraff 4.6 i).

3.3 Bod y Cyngor yn penodi'r canlynol:

(i) Y cadeirydd a 10 cynghorydd arall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd nad ydynt yn aelodau'r Cabinet (gweler paragraff 4.6 ii)

(ii) 6 chynghorydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nad ydynt yn aelodau'r Cabinet (gweler paragraff 4.6 iii)

(iii) 1 cynghorydd i'r Panel Maethu a Chyd-Banel Mabwysiadu (gweler paragraff 4.6 vi)

(iv) 2 gynghorydd i'r Pwyllgor Safonau (gweler paragraff 4.6 viii)

3.4 Bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl cyfweld ymgeiswyr am swydd aelod lleyg ar y pwyllgor ac yn gwneud argymhelliad ar y penodiad i'r Cyngor llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae darpariaethau cydbwysedd gwleidyddol statudol Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a'r Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf yn gofyn i'r Cyngor, ar ôl etholiad ac o leiaf bob blwyddyn wedi hynny, ymgymryd ag adolygiad o ddyraniad seddau ar yr amrywiol bwyllgorau a phaneli. Gellir gwneud hyn yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor neu mor fuan ag sy'n ymarferol wedi hynny.

4.2 Mae'r rwymedigaeth statudol yn gweithredu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bedair egwyddor yn y Ddeddf sydd â'r nod o osgoi pwyllgorau un plaid, tra'n caniatáu i blaid gyda mwyafrif gael mwyafrif y seddau ar bwyllgor. Y bwriad yw bod nifer cyffredinol seddau un Grŵp yn gymesur â chryfder y Grŵp ar y Cyngor h.y. os oes gan Grŵp 10 aelod, yna cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gall ddisgwyl cael 10 sedd ym mhob 47 sedd. Yn yr un modd, ac eto cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylai aelod nad yw'n perthyn i Grŵp gael 1 sedd ym mhob 47. Mae modd i Gyngor wyro oddi wrth cydbwysedd gwleidyddol, ond dim ond os nad oes unrhyw aelod yn pleidleisio yn erbyn cynnig o'r fath.

4.3 Y geiriau allweddol yw 'cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol' gan fod nifer a meintiau gwahanol y Grwpiau (ynghyd ag aelodau nad ydynt mewn grŵp) yn golygu nad oes modd yn aml cael nifer hollol gytbwys o aelodau ar gyfer pob pwyllgor. Mae'r wybodaeth ar faint y grwpiau yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad a bydd unrhyw newidiadau sy'n digwydd cyn y cyfarfod yn cael eu hystyried a'u hadrodd yn y cyfarfod ar 22 Mai.

4.4 Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn nodi amrywiol bwyllgorau/baneli'r Cyngor sy'n cyfarfod yn rheolaidd a chyfanswm y seddau "sydd ar gael" sydd angen eu dosbarthu ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Y bwriad yw dosbarthu seddau sy'n rhoi cydbwysedd gwleidyddol o ben i ben. Fodd bynnag, gan na fydd pob Grŵp efallai eisiau derbyn eu dyraniad seddau llawn mae'n bosibl y bydd angen peth ailddosbarthu wedi hynny.

4.5 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn galw am sefydlu 2 bwyllgor newydd: Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

4.6 Rhai materion i'r Grwpiau eu hystyried wrth benodi eu haelodau i bwyllgorau:

i. Mae Arweinydd y Cyngor yn penodi aelodau'r Cabinet ar sail cydbwysedd gwleidyddol mewn ymgynghoriad ag arweinwyr grwpiau. Os bydd grŵp yn gwrthod y cyfan neu rai o'r seddau Cabinet sydd ar gael iddo, gall yr Arweinydd ail-ddyrannu'r seddau sydd heb eu cymryd heb lynu at ystyriaethau cydbwysedd gwleidyddol. Ni chaiff aelodau'r Cabinet fod yn aelodau pwyllgor craffu, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol na'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

ii. Yn y Cyfarfod Blynyddol ar 15 Mai, penderfynodd y Cyngor mai aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd sy'n ofynnol dan y Mesur Llywodraeth Leol fyddai 11 cynghorydd na fyddai'n cynnwys aelod o'r Cabinet. Bydd gan y Pwyllgor hwn gydbwysedd gwleidyddol.

iii. Yn y Cyfarfod Blynyddol, penderfynodd y Cyngor hefyd mai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fyddai'r Pwyllgor Archwilio sy'n ofynnol dan y Mesur. Bydd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys 6 chynghorydd etholedig (heb gynnwys aelod o'r Cabinet) ac aelod lleyg, oll i'w penodi gan y Cyngor llawn (gweler yr argymhellion yn yr adroddiad hwn). Dan Gyfansoddiad y Cyngor bydd yr aelodau'n cynnwys Is-gadeirydd y Cyngor, a hefyd na chaiff aelodau Llywodraethu Corfforaethol fod yn aelodau pwyllgor craffu.

iv. Mae'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol yn bwyllgor ymgynghorol staff mewnol lle mae cynrychiolwyr y cyflogwr yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr undeb ac yn cynnwys 1 aelod o'r Cabinet, yn ddelfrydol yr aelod Cabinet sydd â chyfrifoldebau am faterion Adnoddau Dynol.

v. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol yn bwyllgor ymgynghorol staff mewnol gydag 8 cynghorydd wedi eu penodi gan y grwpiau gwleidyddol ac 8 cynrychiolydd undebau llafur.

vi. Mae angen aelod ar gyfer y Panel Maethu a'r Cyd-banel Mabwysiadu. Dros y blynyddoedd, y Cynghorydd Chamberlain-Jones sydd wedi cymryd y rôl hon ac nid yw ei rôl fel Cadeirydd y Cyngor yn ei rhwystro rhag parhau ar y paneli os oes angen.

vii. CYSAG yw'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol, pwyllgor statudol ar gyfer pob awdurdod addysg lleol. Mae ganddo gylch gorchwyl i godi safonau mewn addysg grefyddol a chyd-addoli. Yn ychwanegol at yr wyth cynghorydd, mae gan CYSAG gynrychiolwyr o enwadau crefyddol, cymdeithasau athrawon ac aelodau cyfetholedig.

viii. Mae aelodau Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn cynnwys 2 gynghorydd sir, yn y gorffennol Huw Jones a George Green.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae dosbarthu seddau pwyllgor yn deg yn hanfodol i'r aelodau etholedig a gwaith democrataidd y Cyngor.

**6. Beth fydd yn gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Gweler adran 8 am y costau. Nid yw'r adroddiad hwn yn effeithio gwasanaethau eraill.

**7. Pa ymgynghori â fu?**

Ddim yn hollol berthnasol gan fod yr adolygiad yn ofyniad statudol. Mae'r adroddiad ei hun wedi ei fwriadu fel dull o ymgynghori gyda'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol y mae gofyn iddynt gadarnhau eu dyraniadau gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes costau uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn. Bydd talu aelodau am ymgymryd â rolau penodol e.e. ar y Cabinet neu gadeirio pwyllgor yn cael ei drin mewn adroddiadau ar wahân i'r Cyngor llawn.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Ddim yn berthnasol

**10. Pŵer i gymryd y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.